Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

Gwarchodfa Natur Genedlaethol Gwlyptiroedd Casnewydd
Newport Wetlands National Nature Reserve

# Corsleoedd Aber-wysg | Uskmouth Reedbeds

## Croeso Gorsleoedd Aber-wysg

### Rhan o Warchodfa Natur Genedlaethol Gwlyptiroedd Casnewydd (GNG)

Mae'r warchodfa enfawr hon yn cwmpasu ardal o fwy na 865 hectar (2138 erw neu 865 o gaeau rygbi) ac yn cynnwys pedair prif ardal a llawer o gynefinoedd gwahanol ar gyfer bywyd gwyllt a phlanhigion.

**Corsleoedd Aber-wysg:** 53ha o gyrs a 12ha o ddŵr agored sy'n gartref i'r rhegen ddŵr, y titw barfog a thelor Cetti sy'n bridio.

**Glaswelltiroedd Morfa Heli:** 134ha o laswelltir gwlyb tir isel. Mae dan ddŵr yn y gaeaf ac yn gynefin i gannoedd o hwyaid a rhydwyr.

**Lagynau Gallt-euryn:** tri lagŵn hallt lle mae adar hirgoes yn nythu yn y gwanwyn a dechrau'r haf. Man clwydo llanw uchel pwysig i adar hirgoes a hwyaid yn y gaeaf.

**Y Blaendraeth:** 485ha o wastadeddau llaid a morfa heli sy'n cysylltu'r tri chynefin uchod ac ardal fwydo bwysig i hwyaid a rhydwyr.

## Welcome to the Uskmouth Reedbeds

### Part of Newport Wetlands National Nature Reserve (NNR)

This huge reserve covers an area of over 865 hectares (2138 acres or 865 rugby pitches) and is made up of four main areas and many different habitats for wildlife and plants.

**Uskmouth Reedbeds:** 53ha of reeds and 12ha of open water provide a home to breeding water rails, bearded-tits and Cetti's warbler.

**Saltmarsh Grasslands:** 134ha of lowland wet-grassland. Flooded in the winter providing a habitat for hundreds of ducks and waders.


**Goldcliff Lagoons:** three salty lagoons where waders nest in spring and early summer. An important high-tide roost for waders and ducks in winter.

**Foreshore:** 485ha of mud-flats and saltmarsh connecting the three habitats above and an important feeding area for ducks and waders.




© Airbus Defence & Space a Getmapping. Atgynhyrchwyd drwy ganiatâd Llywodraeth Cymru (Taliadau Gwledig Cymru) – Ebrill 2016

## Llwybrau Cerdded Corsleoedd Aber-wysg | Uskmouth Reedbeds Walks




© Airbus Defence & Space and Getmapping. Reproduced by permission of Welsh Government (Rural Payments Wales) – April 2016

## Hafan bywyd gwyllt o dir diwydiannol diffaith

**Yma yn Aber-wysg, mae 58 hectar o gorsleoedd wedi'u creu mewn hen lagynau a ddefnyddiwyd ar un adeg i ollwng gwastraff lludw o'r orsaf bŵer. Mae llawer o adar yn heidio yma gan fod y warchodfa'n darparu popeth sydd ei angen arnynt – digonedd o fwyd, cysgod, a dŵr glân.**

Mae'n gartref i adar prin sy'n nythu megis telor Cetti, y rhegen ddŵr a'r titw barfog. Yn y gaeaf efallai y gwelwch chi foda'r gwerni a'r dylluan glustiog yn hela dros y cyrs. Mae dyfrgwn yn hela am ruddbysgod a physgod eraill.

Allan ar **wastadeddau llaid** Aber Afon Hafren yn ystod y gaeaf, fe welwch adar hirgoes fel y gylfinir, y pibydd coesgoch, hwyaden yr eithin a'r cwtiad llwyd yn gwneud y gorau o'r cyflenwad bwyd cyfoethog.

Mae'r **glaswelltiroedd llawn blodau** o gwmpas y gwelyau cyrs yn bwysig ar gyfer y gardwenynen feinlais sy'n brin yn genedlaethol. Ar rannau sychach y lludw, mae planhigion prin megis y pupurlys llydanddail a'r ytbysen fythol gulddail yn ogystal â phum rhywogaeth o degeirian yn tyfu.

## A wildlife haven from industrial wasteland

**Here at Uskmouth, 58 hectares of reedbeds have been created in old lagoons that were once used to dump ash waste from the power station. Many birds flock here because the reserve provides all that they need - plentiful food, shelter, and clean water.**

It is home to scarce breeding birds such as Cetti's warbler, water rail and bearded tit. In the winter you might see marsh harriers and short-eared owls hunting over the reeds. Otters hunt for rudd and other fish.

Out on the **mudflats** of the Severn Estuary during winter, you can see wading birds like curlew, redshank, shelduck and grey plover stocking up from this rich food supply.

The **flower-rich grasslands** around the reedbeds are important for the nationally scarce shrill carder bee. On the drier areas of fly ash, scarce plants such as dittander and narrow-leaved everlasting-pea grow as well as five species of orchid.

### AM EICH DIOGELWCH:

- Mae da byw'n pori ar rannau o'r warchodfa – peidiwch â mynd yn agos atyn nhw na'u bwydo. Cadwch gŵn ar dennyn byr a chaewch gatiau ar eich ôl.
- Caiff y gwastadeddau llaid a'r morfa heli eu gorchuddio'n rheolaidd gan y llanw.
- Dŵr dwfn yn y ffosydd – cofiwch gadw at y llwybrau.
- Llethrau serth ar y morglawdd – cadwch draw.
- Ceblau trydan foltedd uchel uwchben.

### FOR YOUR SAFETY:

- Livestock graze parts of the reserve – do not approach or try to feed. Keep dogs on a short lead and please shut gates behind you.
- Mudflats and saltmarsh are regularly covered by tides.
- Deep water in ditches – please keep to the paths.
- Steep slopes on the sea-wall – please keep away.
- High-voltage overhead power lines.

**Galwch heibio'r ganolfan ymwelwyr am daflen llwybrau, cyngor a thaflen weithgaredd bywyd gwyllt ar gyfer plant.**

**Pop into the visitor centre for a trail leaflet, advice and a wildlife activity sheet for children.**

## Beth allwch chi ei wneud gan ddechrau yma?

Mae Goleudy Dwyrain Wysg, y gallwch ei weld yn y pellter, dros 120 oed ac mae'n dal i fod ar waith hyd heddiw! Dim ond 5 munud gymer hi i gerdded ato, ar y pontŵn sy'n arnofio ar draws y gwely cyrs. Oddi yno cewch fwynhau golygfeydd o Aber Afon Hafren, Gwlyptir o Bwysigrwydd Rhyngwladol ar gyfer adar sy'n gaeafu. Ar ddiwrnod clir gallwch weld Exmoor sydd dros 50km i ffwrdd! Os oes gennych chi gi, cadwch at y ***Llwybr Lonydd Gwyrdd ac Arfordir*** a mynd ag unrhyw faw ci oddi yma gyda chi.

## What can you do from here?

The East Usk Lighthouse you can see in the distance is over 120 years old and is still in use today! It's only a 5 minute walk away, via the floating pontoon across the reedbed. From there take in the views of the Severn Estuary, a Wetland of International Importance for wintering birds. On a clear day you can see Exmoor which is over 50km away! If you have a dog with you please keep to the ***Green Lanes and Coast Walk*** and take away any dog mess.

### Llwybr Cerfluniau | Sculpture Trail

Arwyddbyst gwyrdd
Green waymarker

**Hawdd | Easy**
Pellter | Distance: 1m/1.6km
Amser | Time: ½ awr | hour

**UCHAFBWYNTIAU:** Llwybr drwy'r gwelyau cyrs, dros y bont sy'n arnofio a heibio'r goleudy.

**HIGHLIGHTS:** Go through reedbeds, over the floating bridge and past the lighthouse.

### Llwybr y Tegeirianau | Orchid Trail

Arwyddbyst glas
Blue waymarker

**Hygyrch | Accessible**
Pellter | Distance: 1m/1.6km
Amser | Time: ½ awr | hour

**UCHAFBWYNTIAU:** Yn hwyr yn y gwanwyn ac ar ddechrau'r haf, chwiliwch am degeirianau.

**HIGHLIGHTS:** Look out for orchids in late spring/summer.

### Llwybr y Goedlan a'r Aber | Woodland and Estuary Trail

Arwyddbyst porffor
Purple waymarker

**Hygyrch | Accessible**
Pellter | Distance: 1½m/2.3km
Amser | Time: ¾-1 awr | hours

**UCHAFBWYNTIAU:** Mynd drwy wahanol gynefinoedd megis gwelyau cyrs a choedlannau a heibio dŵr agored a'r aber.

**HIGHLIGHTS:** Go through reedbeds, woodland, past open water and the estuary.

### Profiad o'r Gwlyptir | The Wetlands Experience

Arwyddbyst coch
Red waymarker

**Hygyrch | Accessible**
Pellter | Distance: 3m/4.5km
Amser | Time: 1½-2 awr | hours

**UCHAFBWYNTIAU:** Mae'n gyfuniad o'r llwybr tegeirianau, llwybr y goedlan a'r aber a rhan o Lwybr Arfordir Cymru.

**HIGHLIGHTS:** Combines the orchid trail, the woodland and estuary trail and part of the Wales Coast Path.

### Llwybr Lonydd Gwyrdd ac Arfordir | Green Lanes and Coast Walk

Arwyddbyst gwyn
White waymarker

**Hawdd | Easy**
Pellter | Distance: 4m/6km
Amser | Time: 2-3 awr | hours

**UCHAFBWYNTIAU:** Goleudy Dwyrain Wysg, golygfeydd dros Aber Afon Hafren cyn belled ag Exmoor, cuddfan adar a lonydd gwyrdd (gall Fish-house Lane fod yn fwdlyd iawn yn y gaeaf neu ar ôl glaw trwm).

Mae croeso i gŵn ar dennyn byr ar y daith gerdded hon, ond cofiwch lanhau ar ôl eich ci.

**HIGHLIGHTS:** The East Usk Lighthouse, views over the Severn Estuary as far as Exmoor, bird-hide, and green lanes (Fish-house Lane can be very muddy in winter or after heavy rain).

Dogs on a short lead are welcome on this walk, please clean up after your dog.

www.cyfoethnaturiol.cymru
www.naturalresources.wales
0300 065 3000

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru'n rheoli'r Warchodfa Natur Genedlaethol hon; rhannau o gefn gwlad lle mae enghreifftiau arbennig o gynefinoedd a bywyd gwyllt Prydain wedi'u gwarchod.

Natural Resources Wales manages this National Nature Reserve (NNR); areas of the countryside where special examples of Britain's habitats and wildlife are protected.

parcio / parking
ffin y warchodfa GNG / NNR reserve boundary
cuddfan gwylio adar / bird hide
llwyfan gwylio / viewing platform
llwybr caniataol / permissive path
Llwybr Arfordir Cymru / Wales Coast Path
Caniatâd i feiciau / Bicycles allowed

rspb yn rhoi cartref i fyd natur / giving nature a home
Newport City Council / Cyngor Dinas Casnewydd
Noddir gan Lywodraeth Cymru / Sponsored by Welsh Government